# RHYBUDD ETHOLIAD

## Dydd Iau 27 Awst 2026
## Cyngor Cymuned Rhosddu – Ward Stansty

1. Cynhelir etholiad ar gyfer un Cynghorydd Cymuned mewn perthynas â Ward Stansty Cyngor Cymuned Rhos-ddu.

2. Rhaid cyflwyno papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau erbyn **4yh ddydd Gwener 31 Gorffenaf 2026** fan bellaf**.**

3. Gellir mynd â phapurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau, Swyddfa Etholiadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY rhwng 10yb a 4yh ar unrhyw ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyhoeddi'r rhybudd hwn (ac eithrio gwyliau banc), trwy apwyntiad, neu gellir eu cyflwyno yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad isod ynglŷn â chyflwyno'n electronig.

4. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY, ar-lein o wefan y Comisiwn Etholiadol:

   Ymgeiswyr ac asiantiaid mewn etholiadau cynghorau cymuned yng Nghymru | Y Comisiwn Etholiadol

   neu gellir gofyn amdanynt yn electronig drwy e-bost - gweler y datganiad darpariaeth electronig isod.

5. Os caiff ei herio, cynhelir y bleidlais **ddydd Iau 27 Awst 2026.**

6. Rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn 12 hanner nos, ddydd Mawrth 11 Awst 2026. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

7. Rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol, gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh ddydd Mercher 12 Awst 2026.

8. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh ddydd Mercher 19 Awst 2026.

9. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY erbyn 5yh ddydd Iau 27 Awst 2026.

**Alwyn Jones**
**Swyddog Canlyniadau**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY
Dyddiedig : Dydd Iau 23 Gorffennaf 2026

## Datganiad Darpariaeth Electronig

Mae'n rhaid i bapurau enwebu a gyflwynir yn electronig, drwy e-bost, gael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau fel y nodir yn y datganiad hwn.

Trwy e-bost i **CCnominations@wrexham.gov.uk**

**Gwiriadau anffurfiol** – teipiwch '**GWIRIAD ANFFURFIOL'** yn y blwch testun
**Cyflwyno enwebiadau** – teipiwch '**CYFLWYNIAD FFURFIOL'** yn y blwch testun

Gellir defnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod hefyd ar gyfer ymholiadau enwebu.

Lle y bo'n bosibl, rhowch eich rhif ffôn yn yr e-bost eglurhaol rhag ofn y bydd gennym ymholiadau.

Dylid atodi papurau enwebu at yr e-bost mewn dogfen Word neu PDF. Mae llofnod wedi'i deipio, llofnod electronig neu lofnod inc gwlyb (ar bapur enwebu wedi'i sganio) i gyd yn llofnodion dilys ar gyfer papurau enwebu a gyflwynir yn electronig.

Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir cyn y dyddiad cau.

Nid yw derbyn derbynneb darllen electronig gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i'r ymgeiswyr am ei benderfyniad o ran p'un a yw eu henwebiad yn ddilys ai peidio. Fodd bynnag, dylech gael ymateb awtomatig o'r ddau gyfeiriad e-bost a ddangosir uchod, a fydd yn nodi bod e-bost wedi ein cyrraedd. Os na fyddwch yn cael ymateb awtomatig, cysylltwch ag electoral@wrexham.gov.uk.